

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, y gallwch gael rhywun rydych yn ymddiried ynddo i wneud hynny ar eich rhan.

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os yw'ch cyflogaeth chi neu gyflogaeth eich gŵr neu wraig neu bartner sifil yn golygu na allwch bleidleisio'n bersonol.

Yng Nghymru a Lloegr rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio i fwrw pleidlais.

Yn yr Alban rhaid eich bod yn 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd mewn etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Rhaid i chi ofyn i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch, ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Llenwch y ffurflen gais pleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid i chi roi rheswm pam eich bod am bleidleisio drwy ddirprwy. Rhaid i chi gael rhywun i ategu eich cais. Gweler y nodiadau isod am wybodaeth am bwy all ategu eich cais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. **Mae'r manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. Rhaid i'ch ffurflen gais gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os caiff pleidlais drwy ddirprwy, pleidlais bost neu bleidlais bost drwy ddirprwy ei newid neu ei chanslo, ac erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn y bleidlais** os gwneir cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**.

Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Ewch i eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Pwy all ategu fy nghais?

- Os oes gennych gyflogwr, eich cyflogwr neu unigolyn awdurdodedig arall yn eich gweithle.
 - Os ydych yn hunangyflogedig, rhywun sy'n 18 oed neu drosodd sy'n eich adnabod ac nad yw'n perthyn i chi.
- Bydd angen i'r sawl sy'n ategu eich cais roi ei fanylion yn adran 7 o'r ffurflen. Rhaid i'r sawl sy'n ategu eich cais hefyd gwblhau naill ai:
- 8A os ydych yn gyflogedig; neu
 - 8B os ydych yn hunangyflogedig; neu
 - 8C os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person cyflogedig; neu
 - 8D os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person hunangyflogedig;
- Yn yr Alban, gall y sawl sy'n ategu eich cais hefyd fod yn 16 neu'n 17 oed ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban, ond rhaid i'r sawl sy'n ategu eich cais fod yn 18 oed neu drosodd ar gyfer etholiadau i Senedd y DU neu Senedd Ewrop. Os yw'r sawl sy'n ategu eich cais yn 16 neu'n 17 oed, bydd angen iddo roi manylion yn adran 7 o'r ffurflen a chwblhau naill ai:
- 8E os ydych yn gyflogedig; neu
 - 8F os ydych yn hunangyflogedig; neu
 - 8G os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person cyflogedig; neu
 - 8H os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person hunangyflogedig.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd cyflogaeth

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd angen i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gall wneud cais i bleidleisio drwy'r post ar eich rhan. Gall wneud cais i wneud hyn tan **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Gall gysylltu â'r swyddfa cofrestru etholiadol i gael rhagor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais arall. Am fanylion cyswllt, ewch i dybleidlaisdi.co.uk
- Caiff eich dirprwy gerdyn pleidleisio drwy ddirprwy sy'n dweud wrtho ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad.
- Os byddwch yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wedi'r cyfan, gallwch bleidleisio eich hun ar yr amod nad yw eich dirprwy eisoes wedi gwneud hynny neu nad yw wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post ar eich rhan.

Pleidleisio fel dirprwy

Gall person ond bod yn ddirprwy ar ran perthnasau agos ac ar gyfer hyd at ddau berson arall mewn etholiad neu refferendwm.

Perthnasau agos yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu ŵyr/wyres yr ymgeisydd.

Gall y sawl rydych yn ei wneud yn ddirprwy ond gweithredu ar eich rhan os yw'n 18 oed neu drosodd (16 neu drosodd yn yr Alban mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban) ac mae wedi'i gofrestru (neu y bydd wedi'i gofrestru) ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw.

Datganiad preifatrwydd

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch iddo at ddibenion etholiadol. Bydd yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu am bobl eraill o bosibl ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall oni bai bod yn rhaid iddo yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol a roddir i Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Mae cyfeiriad ei wefan a'r manylion cyswllt ar gael yn dybleidlaisdi.co.uk

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd cyflogaeth

4 Pam rydych am bleidleisio drwy ddirprwy?

Cwblhewch 4A os ydych yn gwneud cais fel person cyflogedig; 4B os ydych yn hunangyflogedig; 4C os ydych yn gwneud cais fel gŵr neu wraig/partner sifil person cyflogedig; neu 4D os ydych yn ŵr neu wraig/partner sifil person hunangyflogedig;

4A – Cyflogedig

i) Rwy'n cael fy nghyflogi gan (rhowch enw a chyfeiriad y cyflogwr):

ii) Fel (nodwch deitl y swydd):

--

iii) Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n berthnasol i'm cyflogaeth:

4B – Hunangyflogedig

i) Rwy'n hunangyflogedig fel (nodwch deitl eich swydd):

--

ii) Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n berthnasol i'm galwedigaeth:

4C – Gŵr neu wraig/partner sifil person cyflogedig

i) Fi yw gŵr neu wraig/partner sifil (rhowch enw eich gŵr neu wraig/partner sifil):

--

Mae fy ngŵr neu wraig/partner sifil yn cael ei gyflogi neu ei chyflogi gan (rhowch enw a chyfeiriad y cyflogwr):

ii) Fel (nodwch deitl y swydd):

--

iii) Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n berthnasol i'w gyflogaeth/chyflogaeth:

4D – Gŵr neu wraig/partner sifil person hunangyflogedig

i) Fi yw gŵr neu wraig/partner sifil (rhowch enw eich gŵr neu wraig/partner sifil):

--

ii) Mae fy ngŵr neu wraig/partner sifil yn hunangyflogedig fel (nodwch deitl y swydd):

--

iii) Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n berthnasol i'w alwedigaeth/galwedigaeth:

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd cyflogaeth

5 Eich dyddiad geni a datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r unigolyn rwyf wedi'i enwi'n ddirprwy a gallaf gadarnhau ei fod yn barod i bleidleisio ar fy rhan ac y gall wneud hynny.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

--	--	--	--	--	--	--	--

D D M M B B B B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

6 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

--	--

--	--

--	--	--	--

D D M M B B B B

7 Ategu eich cais

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu eich cais. Gofynnwch i'r sawl sy'n ategu eich cais roi ei enw, cyfeiriad a rôl ac yna i gwblhau naill ai:

- **8A** os ydych yn gyflogedig; neu
- **8B** os ydych yn hunangyflogedig; neu
- **8C** os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person cyflogedig; neu
- **8D** os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person hunangyflogedig.

Os ydych yn yr Alban, gall pobl ifanc 16 a 17 oed hefyd ategu eich cais, ond dim ond ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Ar gyfer yr etholiadau hyn, dylai pobl ifanc 16 a 17 oed gwblhau:

- **8E** os ydych yn gyflogedig; neu
- **8F** os ydych yn hunangyflogedig; neu
- **8G** os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person cyflogedig; neu
- **8H** os ydych yn ŵr neu wraig neu bartner sifil person hunangyflogedig.

Os ydych yn yr Alban a bod y sawl sy'n ategu eich cais yn 18 oed neu drosodd, cwblhewch 8A, 8B, 8C neu 8D uchod.

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Rôl y sawl sy'n ategu'r cais

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

--

Nawr gofynnwch i'r sawl sy'n ategu eich cais gwblhau'r datganiad perthnasol.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd cyflogaeth

8A Datganiad y cyflogwr (os yw'r ymgeisydd yn gyflogedig)

- Fi yw cyflogwr yr ymgeisydd neu rwy'n gyflogai â'r awdurdod i weithredu ar ran y cyflogwr
- Rwy'n 18 oed neu drosodd
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r wŷr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4A yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B	B	B

8B Datganiad y sawl sy'n ategu'r cais (os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig)

- Rwy'n 18 oed neu drosodd
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r wŷr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4B yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B	B	B

8C Datganiad y sawl sy'n ategu'r cais (os mai'r ymgeisydd yw gŵr neu wraig/partner sifil person cyflogedig)

- Fi yw cyflogwr, neu rwy'n gyflogai â'r awdurdod i weithredu ar ran cyflogwr, y sawl a enwir yn 4C sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd
- Rwy'n 18 oed neu drosodd
- Rwy'n adnabod y person cyflogedig a enwir yn 4C, sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r wŷr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4C(i) a 4C(ii) yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B	B	B

8D Datganiad y sawl sy'n ategu'r cais (os mai'r ymgeisydd yw gŵr neu wraig/partner sifil person hunangyflogedig)

- Rwy'n 18 oed neu drosodd
- Rwy'n adnabod y person hunangyflogedig a enwir yn 4D, sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r wŷr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4D(i) yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B	B	B

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd cyflogaeth

Yr Alban yn unig: datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais (ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban yn unig). Cwblhewch ddatganiad 8A, 8B, 8C neu 8D os yw'r sawl sy'n ategu eich cais yn 18 oed neu drosodd.

8E Datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais: Os yw'r ymgeisydd yn gyflogedig

- Fi yw cyflogwr yr ymgeisydd neu rwy'n gyflogai â'r awdurdod i weithredu ar ran y cyflogwr
- Rwy'n 16 neu'n 17 oed
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r ŵyr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4A yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B

8F Datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais: os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig

- Rwy'n 16 neu'n 17 oed
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r ŵyr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4B yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B

8G Datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais: os mai'r ymgeisydd yw gŵr neu wraig/partner sifil person cyflogedig

- Fi yw cyflogwr, neu rwy'n gyflogai â'r awdurdod i weithredu ar ran cyflogwr, y sawl a enwir yn 4C sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd
- Rwy'n 16 neu'n 17 oed
- Rwy'n adnabod y person cyflogedig a enwir yn 4C, sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r ŵyr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4C(i) a 4C(ii) yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B

8H Datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais: os mai'r ymgeisydd yw gŵr neu wraig/partner sifil person hunangyflogedig

- Rwy'n adnabod y person hunangyflogedig a enwir yn 4D, sef gŵr neu wraig/partner sifil yr ymgeisydd, ond nid fi yw'r gŵr neu'r wraig, partner sifil, rhiant, tad-cu neu fam-gu, brawd, chwaer, plentyn na'r ŵyr/wyres
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn 4D(i) yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B